
Cynigion ar gyfer rheoleiddio hysbysebu ar lwyfannau rhannu fideos

Ymgynghoriad

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 26 Mai 2021

Dyddiad Cau ar gyfer Ymatebion: 28 Gorffennaf 2021

1. Trosolwg

Beth rydym yn ei gynnig - yn gryno

Ym mis Tachwedd 2020 rhoddwyd pwerau newydd i Ofcom reoleiddio llwyfannau rhannu fideos ("VSP") a sefydlir yn y DU. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswydd i sicrhau bod safonau penodol yn ymwneud â hysbysebu yn cael eu bodloni.

Mae VSP yn fath o wasanaeth fideos ar-lein. Prif nodwedd y math hwn o wasanaeth yw ei fod yn galluogi defnyddwyr i uwchlwytho a rhannu fideos gyda'r cyhoedd. O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf"¹), mae Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio VSP, gan gynnwys hysbysebu ar y fath wasanaethau, ond gall dynodi corff arall i fod yn gyd-reoleiddiwr, yn amodol ar feini prawf penodol.

Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd y gofynion VSP yn cael eu disodli gan y Mesur Diogelwch Ar-lein, er hynny, bydd y gofynion hysbysebu penodol yn cael eu dirymu, ac ni fydd hysbysebion y telir amdanynt yn cael eu hymgorffori yn y fframwaith niwed ar-lein.²

Wrth gyhoeddi'r bwriad hwn, bu i Lywodraeth y DU gydnabod y bydd y system hunanreoleiddio a weinyddir gan yr Awdurdod Safonau Hysbysebu ("ASA") yn parhau ac y bydd hyn yn darparu mesurau diogelu cyfwerth trwy reoleiddio hysbysebu ar VSP, yn ogystal ag ar lwyfannau ar-lein eraill. Hyd nes y bydd y rheoliadau ar gyfer VSP yn dod i ben, mae'n ddyletswydd statudol ar Ofcom i reoleiddio hysbysebu ar VSP a sefydlir yn y DU.

Mae'r cynigion a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad wedi cael eu drafftio gan gymryd natur dros dro y darpariaethau statudol a rôl hunanreoleiddio parhaus yr ASA i ystyriaeth.

Rydym yn cynnig fframwaith rheoleiddio sy'n adlewyrchu'r gwahaniaeth yn y Ddeddf rhwng hysbysebu sy'n cael ei farchnata, ei werthu neu ei drefnu gan y VSP a hysbysebu arall.

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod darparwyr VSP yn cymryd camau priodol, fel a ddisgrifir yn Atodlen 15A y Ddeddf, i ddiogelu eu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol. Mae hyn yn berthnasol i'r holl fideos ar VSP, yn ogystal â hysbysebu. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys nifer o ofynion penodol mewn perthynas â hysbysebu.

Mae'r Ddeddf yn cydnabod efallai bod gan ddarparwyr VSP raddau amrywiol o reolaeth dros yr hysbysebu sy'n ymddangos ar eu llwyfannau. Pan gaiff hysbysebu ei farchnata, ei werthu neu ei drefnu gan y darparwyr VSP eu hunain, nhw sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiad â'r gofynion perthnasol. Ar gyfer hysbysebu nad yw'n cael ei farchnata, ei werthu neu ei drefnu ganddynt, mae'n rhaid i ddarparwyr VSP gymryd camau priodol i sicrhau bod y fath hysbysebu'n bodloni'r gofynion perthnasol. Mae rhai gwahaniaethau hefyd yn y gofynion sy'n berthnasol i'r ddau categori hysbysebu hyn.

Mae Ofcom yn cynnig arweiniad drafft ar gymhwyso'r gwahaniaeth yn y ddeddfwriaeth rhwng hysbysebu sydd o dan reolaeth y darparwr VSP a hysbysebu nad yw o dan ei reolaeth. Rydym wedi mabwysiadu ymagwedd eang a hyblyg, gan adlewyrchu cymhlethdod yr ecosystem hysbysebu ar-lein.

Rydym yn rhagweld dau ddull rheoleiddio gwahanol, gan ddibynnu ar ba un a yw hysbysebu o dan reolaeth y darparwr VSP ai beidio.

Rydym yn bwriadu dynodi'r ASA fel cyd-reoleiddiwr hysbysebu a reolir gan VSP.

Rydym yn cynnig y dylai rheoleiddio hysbysebu a reolir gan VSP o ddydd i ddydd gael ei weinyddu gan ASA, gydag Ofcom yn gweithredu fel y rheoleiddiwr statudol terfynol.

Mae gan Ofcom drefniadau cyd-reoleiddio sydd eisoes yn bodoli gydag ASA ar gyfer rheoleiddio hysbysebu darlledu ac ar-alw. Am y rhesymau a nodir yn yr ymgynghoriad hwn, mae Ofcom yn hyderus ei fod yn briodol i ddynodi ASA fel cyd-reoleiddiwr hysbysebu a reolir gan VSP. Rydym yn ystyried bod yna buddiant i gwsmeriaid a'r diwydiant o ran cael pwynt cyswllt unigol ar gyfer materion hysbysebu ar draws yr holl gyfryngau. Mae ein cynigion hefyd yn ceisio sicrhau dilyniant cyn belled ag sy'n bosib, gan adeiladu ar y system hunanreoleiddio hysbysebu ar-lein sydd eisoes yn bodoli. Gan adlewyrchu'r ddeddfwriaeth, mae ein dull wedi'i ddylunio i alluogi ASA i weithio gyda darparwyr VSP yn hyblyg ar y ffordd orau o sicrhau cydymffurfiad eu gwasanaeth.

Bydd Ofcom yn gweinyddu'r fframwaith ar gyfer rheoleiddio hysbysebu nad yw'n cael ei reoli gan VSP, gan gyhoeddi arweiniad ar gymhwysio mesurau priodol.

Ar gyfer hysbysebu nad yw'n cael ei reoli gan VSP, mae'n rhaid i ddarparwyr VSP gymryd camau fel y bo'n briodol i sicrhau bod yr hysbysebu hwn yn bodloni'r gofynion perthnasol. Mae Ofcom yn gyfrifol am asesu priodoldeb mesurau a gymerir gan ddarparwyr VSP ac yn cynnig arweiniad i'w cynorthwyo wrth sicrhau cydymffurfiad. Byddem yn disgwyl i ddarparwyr feddu ar systemau a phrosesu priodol, ac i fedru esbonio'r rheiny i Ofcom fel rhan o'n hymgysylltu goruchwyllo ehangach. Gan gydnabod bod ASA yn rheoleiddio hysbysebu ar-lein ar sail hunanreoleiddio ar hyn o bryd, byddwn yn ceisio gweithio ar y cyd ag ASA i nodi unrhyw wybodaeth berthnasol y gallant ei darparu i ni i helpu cyfeirio ein hasesiadau.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn rhanddeiliaid am:

- Arweiniad arfaethedig Ofcom ar reoli hysbysebu.
- Y fframwaith arfaethedig ar gyfer rheoleiddio hysbysebu a reolir gan VSP.
- Ein cynnig i ddynodi ASA fel cyd-reoleiddiwr mewn perthynas â hysbysebu a reolir gan VSP.
- Ein harweiniad arfaethedig ar gyfer darparwyr VSP ar y mesurau i'w cymryd mewn perthynas â hysbysebu nad yw'n cael ei reoli gan VSP.
- Ein hymagwedd arfaethedig at reoleiddio hysbysebu nad yw'n cael ei reoli gan VSP.

Mae'r cynigion hyn wedi'u dylunio i fod mor syml, diffwdan a niwtral o ran llwyfan a thechnoleg â phosib.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw 5pm ar 28 Gorffennaf 2021.

¹ [Deddf Cyfathrebiadau 2003](#), fel y'i diwygir gan [Reoliadau Gwasanaethau Cyfryngau Clyweled 2020](#).

² DCMS, [Papur Gwyn Niwed Ar-lein: Ymateb llawn Llywodraeth y DU i'r ymgynghoriad](#), Rhagfyr 2020.